

Gwasanaeth Tân ac Achub  
De Cymru



South Wales  
Fire and Rescue Service

**Swyddog Cymorth a Datblygu Systemau CoreHR  
Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Pobl  
Rhif post: 502802**

**GRADD 11, CYFLOG: £30,756 - £31,401**  
(Parhaol. Yn amodol ar werthuso swydd)

**37 awr yr wythnos (cynllun gweithio hyblyg)**

Cododd gyfle cyffrous o fewn yr Adran Adnoddau Dynol a leolir ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân, Parc Busnes Forest View, Llantrisant ar gyfer y swydd heriol ac arloesol uchod.

Prif bwrpas y swydd yw darparu gwasanaeth effeithiol ac effeithlon i holl ddefnyddwyr CoreHR ar draws y Gwasanaeth ynghyd â gweithio'n agos â'r darparwr, a all gynnwys cynhyrchu gwybodaeth rheoli i gynorthwyo gweithgareddau cynllunio sefydliadol a darparu amrywiaeth eang o wybodaeth a dadansoddeg i gefnogi darparu gwasanaethau. Byddai'r ymgeisydd llwyddiannus yn cefnogi adrannau wrth ystyried a dyrchafu mentrau ar draws y Gwasanaeth lle bo'n briodol.

Mae'r swydd hon yn cynnwys teithio achlysurol ar hyd ardal y Gwasanaeth. Fel y cyfryw, bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus allu teithio rhwng lleoliadau. Bydd pob gweithiwr newydd yn amodol ar gwblhau Prawf Cyffuriau ac Alcohol boddhaol a Chliriad gan Wasanaeth Datgelu'r Alban cyn y gwneir unrhyw benodiad.

Gellir canfod mwy o fanylion sy'n ymwneud â'r swydd hon yn y Swydd-Ddisgrifiad a'r Fanyleb Person a ellir eu lawr lwytho ynghyd â'r Ffurflen Gais o dudalen Gyrfaoedd ein gwefan [www.decymru-tan.gov.uk](http://www.decymru-tan.gov.uk). Pe baech yn dymuno unrhyw wybodaeth bellach, cysylltwch â Kimbely Jeal, Rheolwr AD – Cyflogres, Pensiynau a Chyllidebau ar 01443 232189 neu drwy law e-bost [k-jeal@decymru-tan.gov.uk](mailto:k-jeal@decymru-tan.gov.uk).

Dylid danfon Ffurflenni Cais gorffenedig at: Y Tîm Recriwtio ac Asesu, Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Parc Busnes Forest View, Llantrisant CF72 8LX.

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ffurflenni cais yw'r dydd Iau 22ail o Ionawr am ganol dydd, 12:00. Bydd y cyfweiliadau yn cael eu cynnal ar 1af o Chwefror 2019.

Mae croeso i chi gyfathrebu â ni naill ai yn Saesneg neu yn Gymraeg. Ni chaiff ffurflenni cais a gyflwynir yn Gymraeg eu trin yn llai ffafriol. Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Gymraeg. Mae sgiliau Iaith Gymraeg yn ddymunol ar gyfer y swydd hon ond nid yn hanfodol.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n credu yng ngwir werth gweithlu amrywiol ac rydym yn dymuno annog yn rhagweithiol ymgeiswyr o bob sector cymdeithas i ymgeisio.

